



Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) 2015-2016

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	
2	Cyflwyniad	
3	Canfyddiadau'r Archwiliad
4	Casgliad.....	
5	Atodiadau	

Crynodeb Gweithredol

- 1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw'r Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLI), ac maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod bydwagedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan Erthygl 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y ceir ei fanylion yn rheolau a safonau bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, gwneir swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran gweinidogion Cymru. Mae gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) yng Nghymru ddau Swyddog Bydwreigiaeth AGLI a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr AGLI ar ei ran.
- 1.2** Canolbwynt cyffredin yr oruchwyliaeth yn ystod y flwyddyn oedd datblygu model diwygiedig o oruchwyliaeth a fydd yn caniatáu i'r AGLI a'r byrddau iechyd gyflawni eu dyletswyddau statudol perthnasol. Y cefndir i'r angen am fodel goruchwylio newydd yng Nghymru oedd bod llawer o risgiau wedi'u dynodi yn y model presennol, yn ogystal â nifer gynyddol o ymddiswyddiadau ac absenoldebau ymhlith goruchwylwyr bydwagedd nad oeddent yn gallu cydbwysu gofynion cynyddol y rôl gyda gofynion eu prif swyddi.
- 1.3** Aeth y model yn fyw ar 4 Awst 2014, ac ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd yr AGLI adroddiadau archwilio a oedd yn nodi'r materion i'w trosglwyddo a chynllun gweithredu i ddatblygu goruchwyliaeth. Yn ystod y 12 mis o weithredu, mae'r AGLI wedi gallu rhoi sicrwydd bod safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni drwy adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol bob tri mis, cynnal cyfarfodydd goruchwylio a gwerthuso bob yn ail fis, a chynnal adolygiad llawn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r holl brosesau archwilio hyn wedi cadarnhau bod yr AGLI yn bodloni'r holl safonau, a chafodd hyn ei adrodd yn adroddiad blynyddol Awdurdodau Goruchwylio Lleol Cymru gyfan 2014-15 a'r adroddiad archwilio.
- 1.4** Pwrpas archwiliad blynyddol 2015-16 yw cadarnhau bod goruchwylwyr bydwagedd yn cyflawni eu swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd, mewn perthynas â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac i wneud awgrymiadau er mwyn datblygu ymhellach a gwella'n barhaus. Bydd canfyddiadau'r archwiliad ledled Cymru yn dylanwadu ar gyfeiriad y gefnogaeth i fydwagedd pan fydd y newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud i adael goruchwyliaeth statudol.
- 1.5** Mae'r AGLI yng Nghymru wedi diwygio a mireinio'r broses o archwilio gwasanaethau mamolaeth sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth gyda Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio dull tîm gyda mewnbwn gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd asesu a oedd timau goruchwylwyr bydwagedd yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dyfernir bod safonau 'wedi cael eu bodloni', 'heb gael eu bodloni' neu 'angen gwelliant'. Pan nad yw safon yn cael ei bodloni, cytunir ar gynllun gweithredu

ffurfiol gyda'r AGLI sy'n cael ei gyflawni o fewn amserlen y cytunir arni.

1.6 Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar adeg yr archwiliad ac yn rhoi sicrwydd bod y model diwygiedig wedi cael ei roi ar waith yn llawn. Bydd yn rhoi uchafbwyntiau'r model goruchwyllo presennol sydd wedi symud goruchwyliaeth yn ei blaen i fod yn ddarpariaeth brydlon, effeithiol, sydd o ansawdd uchel.

1.7 Trosolwg

Nid oedd y broses archwilio flynyddol a gyflwynwyd yn 2011 yn cael ei hystyried yn addas i'r diben erbyn hyn, gan fod goruchwylwyr bydwragedd bellach yn gweithio fel rhan o'r AGLI. Yn ystod 2014-15, roedd goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a benodwyd i'r model diwygiedig o oruchwyliaeth, wedi gweithio tuag at gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd ym manyleb gwasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol. Cadwyd y pwyslais hwn er mwyn gwella a dylanwadu ymhellach ar newid arferion. Bydd cynnydd ar sail y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Grŵp Arweinyddiaeth Uwch AGIC. Paratowyd adroddiadau bob tri mis a'u rhannu gyda phenaethiaid bydwragedd i fonitro cynnydd ymhellach ac i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau penodol i gynnydd.

Er bod yr AGLI wedi cydymffurfio â holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei Adroddiad Blynyddol a'r adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi argymhell y dylai pob bwrdd iechyd gael ymweliad archwilio unigol a chyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad (CNB Hydref 2015).

Mae'r AGLI wedi bod yn eglur o'r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Mae'r AGLI yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ailddylunio'r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ei fod o'r fam y bydd craffu allanol ar yr AGLI yn hanfodol nawr bod goruchwylwyr yn gweithio'n uniongyrchol i'r AGLI. Gobeithiwn y bydd personél priodol o'r byrddau iechyd yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r broses archwilio fel ffordd o ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, i gyfarwyddwyr gweithredol a'r bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi diogelwch y cyhoedd.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi maes o law ar wefan AGIC yn www.hiw.org.uk/hafan

2 Cyflwyniad

- 2.1** Disgwylir i oruchwylwyr bydwagedd weithio yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ymrymuso bydwagedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a thrwy hynny wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn bwydo i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.
- 2.2** Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLI yn defnyddio dull adolygu gan gymheiriaid mewn perthynas â holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr AGLI i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd ar sail safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr AGLI, o leiaf un adolygydd lleig yr AGLI a goruchwyllydd bydwagedd profiadol o fwrdd iechyd cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio ac yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid, yn ogystal â chefnogi'r drefn o rannu'r arferion gorau. Mae cynnwys adolygwyr lleig yr AGLI yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio, a chroesawyd hyn ar bob lefel.
- 2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 20 a 21 Hydref 2015, fel y cynlluniwyd. Gwahoddwyd staff allweddol i fynychu ynghyd â thîm goruchwyllo'r bwrdd iechyd (**Atodiad A – Rhaglen yr Archwiliad**). Bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cynnal archwiliad pyramid tri misol yn ystod Chwarter 3 er mwyn adolygu cynnydd gyda'r gwelliannau fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn syth ar ôl yr ymweliad er mwyn nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth o feysydd oedd angen eu datblygu.
- 2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Sue Jose, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, wedi ei chefnogi gan Jo Lavery, goruchwyllydd bydwagedd profiadol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Kim Ashton, goruchwyllydd bydwagedd profiadol o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, adolygwr lleig yr AGLI Louise Woolley, a darpar oruchwyllydd bydwagedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Rhian Evans.
- 2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad byr gan Sue Jose ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint gan y goruchwylwyr bydwagedd, yn rhoi trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r gweithgareddau goruchwyllo, ynghyd â llwyddiannau'r goruchwylwyr bydwagedd o ran arferion da. Yn ogystal, rhoddodd yr ymweliad archwilio gyfle i'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Pennaeth Bydwreigiaeth, goruchwylwyr bydwagedd, bydwagedd, bydwagedd dan hyfforddiant, a defnyddwyr gwasanaeth gwrdd a rhannu gwybodaeth ar oruchwyliaeth. (**Atodiad B – Mynychwyr**)

3 Canfyddiadau'r Archwiliad

Trosolwg o ganfyddiadau archwilio'r AGLI – nodi risgiau a gwireddu manteision

Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau		
Safon berthnasol yr AGLI/Bydwagedd	Risgiau/Rheolaeth allweddol	Canlyniad <i>Bodlonwyd, Ni Fodlonwyd neu Angen Gwelliant</i>
Rheol 4: Hysbysiad o Fwriad i Ymarfer	<p>Cyflwynir gwybodaeth gywir a hysbysiadau yn flynyddol, neu yn achos gweithwyr newydd, cyn bod bydwagedd yn dechrau gweithio</p> <p>Caiff cofnodion cronfa ddata'r AGLI eu cwblhau ar gyfer bydwagedd sy'n gadael y sefydliad</p>	<p>Angen Gwelliant – Ar y cyfan, roedd tystiolaeth o ddatganiadau misol ar gyfer hysbysiadau a gyflwynwyd ar gyfer dechreuwyd ac o gwblhau bydwagedd sy'n gadael y sefydliad</p> <p>Nid oedd un fydwraig a oedd wedi dechrau gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi cael ei hysbysiad o fwriad i ymarfer wedi'i lwytho i gronfa ddata'r AGLI. Gwnaed hyn yn ystod yr ymweliad archwilio.</p>
Rheol 6: Cadw Cofnodion	Mae bydwagedd yn cydymffurfio â systemau a ddyluniwyd i gadw cofnodion clinigol yn gywir ac yn ddiogel am 25 mlynedd.	Bodlonwyd – Roedd tystiolaeth yn yr ardal glinigol fod proses ar gyfer cadw cofnodion clinigol yn ddiogel am 25 mlynedd
Rheol 8: Goruchwyllydd Bydwagedd	Caiff goruchwylwyr bydwagedd dan hyfforddiant eu recriwtio a'u cefnogi'n ddigonol yn dilyn cwblhau rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwagedd yn llwyddiannus.	Bodlonwyd – Mae goruchwyllydd bydwagedd wedi'i gefnogi gan y sefydliad i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus ar lefel 'M' er mwyn camu i'r model ym mis Chwefror 2016.
Rheol 9: Adnoddau digonol o fewn y gymhareb a argymhellwyd	<p>Mae'r gymhareb o oruchwylwyr bydwagedd i fydwagedd yn parhau ar y gymhareb a argymhellir o 1:15.</p> <p>Mae gan oruchwylwyr bydwagedd adnoddau digonol i gael eu cefnogi yn eu swyddi.</p>	Bodlonwyd – Mae digon o adnoddau i gyflawni'r gymhareb a argymhellir o un goruchwyllydd bydwagedd i 15 o fydwagedd. Caiff goruchwylwyr bydwagedd eu cefnogi'n dda i weithio ar draws pob maes yn y bwrdd iechyd. Cymhareb bresennol – 1:14
Rheol 9: Cydymffurfio â'r Adolygiad Goruchwyllydd Blynyddol	Cynhelir Adolygiad Goruchwyllydd Blynyddol ar gyfer pob bydwraig i gasglu tystiolaeth ar y modd mae bydwraig yn bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn parhau i fod yn gofrestredig.	Ni Fodlonwyd – 98% oedd y gydymffurfiaeth â'r Adolygiad Goruchwyllydd Blynyddol ar adeg yr ymweliad archwilio.
Rheol 10: Proses	Mae goruchwylwyr bydwagedd yn	Bodlonwyd – gwnaed

ymchwilio goruchwylwyr bydwagedd	ymgymryd ag ymchwiliadau goruchwylwyr mewn ffordd deg, agored ac amserol. Mae goruchwylwyr bydwagedd yn cynorthwyo bydwagedd i gyflawni'r argymhellion perthnasol o ran myfyrio, cynlluniau gweithredu lleol neu raglenni ymarfer AGLI.	ymchwiliadau goruchwylwyr mewn ffordd deg, agored ac amserol gyda chymorth bydwagedd i gyflawni'r argymhellion perthnasol
---	--	---

3.1 Darparu goruchwylwyr bydwagedd

Mae AGLI Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwagedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwylwyr bydwagedd. Mae Rheol 9 o reolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth¹ yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb goruchwylwyr bydwagedd i fydwragedd yn mynd y tu hwnt i 1:15 fel rheol, ond mae'n rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol, heb danseilio diogelwch menywod.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 16 o oruchwylwyr bydwagedd amser llawn yn cael eu cyflogi, ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r Awdurdod Goruchwylwyr Lleol am eu bwriad i ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru, gan roi cymhareb o 1:11 i Gymru. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, roedd 1.8 o oruchwylwyr bydwagedd yn cael eu cyflogi ac roedd 199 o fydwragedd wedi hysbysu'r AGLI am eu bwriad i ymarfer, gan roi cymhareb wedi'i haddasu o 1:11.

3.1.1 Penodi goruchwylwyr bydwagedd, dad-ddethol, ymddiswyddo ac absenoldebau gyda chaniatâd

O ran y dull o weithredu'r model cyfredol, amcangyfrifwyd y dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gael 1.6 – cyfwerth ag amser cyflawn – o oruchwylwyr bydwagedd yn gweithio. Roedd y tîm yn wreiddiol yn cynnwys tri goruchwylwyr bydwagedd. Cwblhaodd un goruchwylwyr bydwagedd ei chyfnod cylchdroi ym mis Awst 2015. Mae dau oruchwylwyr bydwagedd wedi cael dyrchafiad o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac mae disgwyl iddynt adael eu rôl yn oruchwylwyr bydwagedd ym mis Tachwedd 2015, ar ôl trosglwyddo i'r tîm goruchwylwyr bydwagedd newydd, sy'n barod i ymgymryd â'r rôl.

Cynhaliodd yr AGLI broses i ddewis ar gyfer y Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd derfynol, ar gyfer tymor yr hydref 2015, ac ni fu ymgeiswyr o Gwm Taf. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn cefnogi goruchwylwyr bydwagedd presennol i gwblhau modiwl lefel 'M' o ddatblygiad proffesiynol parhaus ym Mhrifysgol Abertawe ar y cyd â myfyrwyr y Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd, yn barod i gamu i'r swydd ym mis Chwefror 2016.

¹ Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

O'r dechrau'n deg gyda'r model presennol o oruchwyliaeth, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi croesawu goruchwylwyr bydwragedd o fyrddau iechyd cyfagos i oruchwylwyr yn ei sefydliad. Mae'r parodrwydd hwn i gynorthwyo goruchwylwyr bydwragedd o du allan i'r sefydliad yn cynnig cyfleoedd datblygu i oruchwylwyr bydwragedd a chyfleoedd i ddysgu ar y cyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ledled y byrddau iechyd. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod digon o adnoddau goruchwylwyr bydwragedd ar gyfer cynllun cylchol hyd fis Mawrth 2017, sef amserlen ddisgwyliedig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y newidiadau i ddarpariaeth goruchwyliaeth statudol.

3.1.2 Mekanwaith ar gyfer darparu mynediad parhaus at oruchwylwyr bydwragedd

Mae Rheol 9² yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd, ac mae'n ofynnol bod gan bob bydwragedd oruchwylwyr bydwragedd penodol y mae'n cyfarfod ag ef o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylwyr blynyddol. Yn ystod 2014-15, roedd y gyfradd gydymffurfio â chyfarfodydd yr adolygiad goruchwylwyr blynyddol yn 97% ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn archwilio. 97% oedd y gyfradd ar adeg yr archwiliad o ran cydymffurfio â chyfarfodydd yr adolygiad goruchwylwyr blynyddol. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu gan y tîm o oruchwylwyr bydwragedd er mwyn gweithio tuag at gyfradd gydymffurfio o 100% tra bod y trydydd chwarter yn cael ei fonitro ym mis Rhagfyr 2015.

Mae monitro cydymffurfiaeth â phroses yr adolygiad goruchwylwyr blynyddol wedi bod yn elfen bwysig o baratoi ar gyfer gweithredu'r model cyfredol. Mae'r AGLI wedi cydnabod yr angen i sicrhau nad yw goruchwylwyr bydwragedd cylchol yn etifeddu gwaith ychwanegol a bod cofnodion goruchwylwyr bydwragedd mewn cyflwr addas ar gyfer y trosglwyddo ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol pan fo goruchwylwyr bydwragedd yn gadael y rôl. Yn sgil cylchdroi'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn ystod Chwarter 3, bydd yr AGLI yn cefnogi ac yn monitro'r sefyllfa wrth i'r tîm newydd weithio tuag at gyflawni cydymffurfiaeth 100% â phroses yr adolygiad goruchwylwyr blynyddol.

Yn dilyn rhaglen archwilio 2014-15, cafwyd tystiolaeth bod y prif anawsterau wrth gyflawni goruchwyliaeth grŵp wedi cael eu datrys. Yr anawsterau penodol oedd:

- sicrhau bod yr holl bydwragedd yn gallu mynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp
- mae bydwragedd o dimau gwahanol yn bresennol ym mhob sesiwn goruchwyliaeth grŵp
- mae goruchwylwyr bydwragedd yn gweithredu dull cyson ledled Cymru

² Mae Rheol 9 o reolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion i oruchwylwyr bydwragedd.

Cadarnhawyd bod y goruchwylwyr bydwagedd wedi cyflwyno dulliau arloesol sydd wedi hybu diogelwch y cyhoedd. Yn benodol, mae'r tîm o oruchwylwyr bydwagedd wedi ymdrechu i ymgymryd â goruchwyliaeth mewn modd cefnogol ac i sicrhau bod yr holl weithwyr yn dysgu'n briodol oddi wrth ddigwyddiadau clinigol. Dywedodd yr holl fydwagedd a gyfwelwyd bod y goruchwylwyr bydwagedd yn weledol ac ar gael yn hwylus, a bod y model presennol o oruchwylwyr yng Nghymru, yn arbennig goruchwyliaeth grŵp, wedi hwyluso hyn.

Ar sail cronfa ddata'r AGLI, dynododd y tîm adolygu nad oedd y tîm o oruchwylwyr bydwagedd wedi gweld tystiolaeth bod safon Dangosydd Perfformiad Allweddol 6 wedi cael ei bodloni:

“Bydd 100% o fydwagedd sydd newydd gymhwyso yn cyfarfod â goruchwyllydd bydwagedd o leiaf ddwywaith o fewn chwe mis a thair gwaith ymhen y flwyddyn...”

Gwnaethom drafod hyn â goruchwyllydd bydwagedd, a ddywedodd ei bod hi'n cadw cronfa ddata bersonol a fyddai'n dystiolaeth o'i chyswllt. Mae'n ofynnol ar oruchwylwyr bydwagedd i gynnal cronfa ddata'r bwrdd iechyd fel tystiolaeth o adolygiadau.

Ers gweithredu'r model newydd, darperir rota goruchwylwyr bydwagedd Cymru gyfan sydd ar alwad 24 awr i'r holl fydwagedd sy'n ymarfer yn ardal yr AGLI. Cynigia hyn fynediad 24 awr at oruchwyllydd bydwagedd, ac mae'n sicrhau bod goruchwyllydd bydwagedd ar gael i ferched sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth, er mwyn cynnig cyfarwyddyd a chymorth (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Cynigir rhif cyswllt canolog a chaiff pob cyswllt – boed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r cyhoedd neu fydwagedd – ei nodi ar ffurf SBAR (sef ffurf sy'n cofnodi sefyllfa, cefndir, asesiad, ac argymhellion unrhyw fater). Caiff y tueddiadau a'r themâu eu crynhoi bob mis, a rhoddwyd adroddiad chwe-misol i bob Pennaeth Bydwreigiaeth ym mis Ebrill 2015. Yn y 12 mis diwethaf, gwnaed 155 o alwadau i linell ar alwad 24 awr Cymru gyfan. O'r rhain, roedd 17 (11%) o gysylltiadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, sy'n gyson â nifer y galwadau a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd eraill Cymru. Roedd y galwadau'n ymwneud yn bennaf â'r angen am gyngor clinigol. At ei gilydd, roedd y galwadau'n rhai priodol yn ôl pob golwg, a rhennir y rhan fwyaf o'r cysylltiadau SBAR â'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylwyr bydwagedd lleol er mwyn iddynt ddilyn eu trywydd os oes angen.

Roedd archwiliad ffôn o'r cyfraddau ymateb ar alwad, a gynhaliwyd gan adolygwyr lleyg yr AGLI ym mis Ionawr 2015, wedi dod o hyd i'r canlynol:

- Roedd switsfwrdd Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cynnig y rhif ffôn cywir
- Nid oedd Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn gallu darparu'r rhif yn wreiddiol o achos cyfrinachedd. Trosglwyddwyd y galwad i'r ward esgor a rhoddon nhw'r rhif cywir.

Daeth yr adolygydd lleyg i gyswllt â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf cyn yr archwiliad a dysgodd y canlynol:

- Trosglwyddodd Ysbyty'r Tywysog Siarl y galwad i swyddfa'r bydwragedd yn Aberpennar. Ni wnaeth y person a atebodd y ffôn roi ei swydd. Nid oedd hi'n gwybod sut i gael y rhif a rhoddodd rif y ward esgor. Cydnabu nad oedd hi'n credu bod y manylion oedd ganddi'n gyfredol.
- Nid oedd Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn gallu rhoi rhif estyniad ac ymddiheurodd y derbynnydd a dywedodd nad oedd yn gallu dod o hyd i'r adran berthnasol heb rif estyniad.

Ailddilysu

Roedd ymwybyddiaeth dda o ofynion ailddilysu, a deallai pob bydwaig beth oedd yn ofynnol a phryd bydd angen iddynt ailddilysu. Deallai'r bydwragedd y pwyslais ar bortffolios ac roeddent yn hyderus wrth adeiladu eu portffolio eu hunain. Rhoddodd y rhan fwyaf o fydwragedd enghreifftiau o sut maen nhw'n casglu adborth, ac roedd y goruchwylwyr bydwragedd wedi buddsoddi cryn amser er mwyn sicrhau bod ansawdd y portffolios yn dda.

Roedd yr angen i gasglu pum darn o adborth yn hysbys ac yn ddealladwy i'r rheiny oll a gyfwelwyd, ac roedd bydwragedd wedi ystyried sut i grynhoi'r adborth. Roedd bydwragedd yn canolbwyntio ar gasglu adborth gan ferched trwy gyfrwng cardiau a llythyrau, arolygon bodlonrwydd ysbyty, a thrwy lythyron a bersonoleiddiwyd y maen nhw'n eu derbyn gan y tîm rheoli pa bryd bynnag y derbynnir adborth da. Nododd yr adolygwyr lleyg fod hyn yn gam cadarnhaol a fydd yn cefnogi'r staff bydwreigiaeth i gyflawni cyfrifoldebau proffesiynol ailddilysu.

Cyfarfu swyddogion bydwreigiaeth yr AGLI bob tri mis gyda Phennaeth Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r tîm lleol o oruchwylwyr bydwragedd i adolygu cydymffurfiaeth â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddefnyddio cerdyn sgorio chwarterol. Cynhaliodd y tîm lleol o oruchwylwyr bydwragedd gyfarfodydd misol â'r Pennaeth Bydwreigiaeth i sicrhau bod cyfathrebu dwyfordd eglur yn bodoli ar bob agwedd o'r swyddogaeth oruchwyllo. Mae'r AGLI yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad misol â swyddogion bydwreigiaeth o Gymru gyfan. Mae'r cyfarfod misol hwn, sydd â'r prif nod o reoli cydymffurfiaeth â'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y fanyleb wasanaeth, hefyd yn galluogi goruchwylwyr bydwragedd i adeiladu tîm cydlynol ac i ffurfio rhwydwaith cefnogol. Roedd presenoldeb swyddogion bydwreigiaeth yr AGLI yn rhoi cyfle i gynnig cyngor a chefnogaeth ychwanegol i oruchwylwyr bydwragedd gyda materion gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â galluogi'r AGLI i oruchwyllo goruchwylwyr bydwragedd wrth iddynt gynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith blynyddol.

3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth a safbwynt adolygwyr lleyg yr AGLI

Crynodeb o ganfyddiadau adolygwyr lleyg yr AGLI

Rôl yr adolygwyr lleyg wrth archwilio oedd canfod safbwyntiau menywod a'u teuluoedd a ddefnyddiodd wasanaethau mamolaeth, gan adeiladu ar ganfyddiadau archwiliad 2014-15 a edrychodd ar brofiadau bydwragedd a menywod o ddefnyddio goruchwyliaeth. Siaradodd yr adolygwyr lleyg ag wyth o fenywod ar wardiau cynenedigol ac ôl-enedigol mewn dau leoliad, gyda chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn ogystal ag â nifer o fydwagedd, y tîm o oruchwylwyr bydwragedd, uwch-reolwyr a'r Cyfarwyddwr Clinigol.

Cyfrannodd cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth at y diwrnod archwilio blynyddol a rhannodd nifer o syniadau newydd i helpu menywod a'u teuluoedd i ddefnyddio goruchwyliaeth, yn arbennig drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae cynlluniau i rwydweithio â chadeiryddion eraill o bwyllgorau cyswllt gwasanaethau mamolaeth ac ag adolygwyr lleyg yr AGLI i sefydlu tudalen Facebook mamolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth fod y diwrnod archwilio wedi cynyddu'n fawr ei dealltwriaeth o rôl y goruchwyllydd bydwragedd yng Nghymru.

Mae'r ymwybyddiaeth o rôl y goruchwyllydd bydwragedd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth benywaidd yn isel ac nid oedd yr un o'r defnyddwyr gwasanaeth benywaidd na'u teuluoedd yn gyfarwydd â'r rôl. Serch hynny, ar ôl i'r rôl gael ei disgrifio iddynt roeddent yn bendant bod y gallu i ddefnyddio goruchwyllydd bydwragedd yn adnodd gwerthfawr. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn hapus iawn gyda'r gofal a gawsant gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Ceir byrddau arddangos sy'n disgrifio rôl y goruchwylwyr bydwragedd ym mhob ardal o'r gwasanaethau mamolaeth ac maent yn cyd-fynd â ffurf Cymru gyfan. Rhoddir y rhif ar alwad cywir a disgrifiad clir o rôl y goruchwyllydd bydwragedd. Byddai'n fuddiol canolbwyntio ar y rôl gall goruchwyllydd bydwragedd ei chwarae gyda defnyddiwr gwasanaeth a'i deulu ar y byrddau arddangos hyn. Nid oedd y daflen "*Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?*" ar gael ar y byrddau arddangos yn y naill leoliad na'r llall yr ymwelwyd â nhw.

Nid yw gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rhestru rhif ar alwad a manylion cyswllt Cymru gyfan. Roedd y wybodaeth oedd ar gael ar y wefan yn darparu rhifau ffôn cyswllt ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd nad oedd yn y rôl bellach. Mae gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar oruchwylwyr bydwragedd yn canolbwyntio ar y modd mae'r rôl yn gweddu i fydwagedd, ac nid i ddefnyddwyr gwasanaeth. Ychwanegiad defnyddiol i'r wefan

fyddai cynnwys dolen i daflen "Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?" i helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr gwasanaeth o oruchwyliaeth fel adnodd. Byddai'r wefan ar ei hennill hefyd o gynnwys rhif ffôn ar alwad Cymru gyfan.

Siaradodd yr adolygwr llewg â goruchwylwyr bydwagedd a bydwagedd yn ystod yr ymweliad archwilio ynglŷn â rhannu safbwyntiau defnyddwyr am sut yr oedd goruchwyliaeth statudol wedi bod o gymorth i fenywod ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod goruchwyllydd bydwagedd ar gael mewn cyfarfodydd o'r tîm obstetreg yn ehangach, i sicrhau bod ei rôl yn ddealladwy, yn enwedig o ran ei pherthnasedd i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r tîm o oruchwylwyr bydwagedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi rhoi'r model presennol o oruchwyliaeth ar waith yn llwyddiannus, serch bod heriau megis bod y goruchwylwyr bydwagedd yn dod o fyrddau iechyd eraill.

3.3 Ymgysylltu â bydwagedd dan hyfforddiant

Gwnaeth y goruchwylwyr bydwagedd gydnabod bod angen gwella'r berthynas a'r ymwneud â'r Sefydliad Addysgol Cymeradwy, sydd â myfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymwyseddau ymarferol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Nid oes gan y goruchwylwyr bydwagedd drywydd archwilio ffurfiol ar gyfer eu cyswllt â'r bydwagedd dan hyfforddiant. Nid ydynt yn mynychu'r Sefydliad Addysgol Cymeradwy i gynorthwyo bydwagedd dan hyfforddiant i gael mynediad at oruchwyllydd bydwagedd, yn unol â Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Dylai goruchwylwyr bydwagedd sicrhau bod bydwagedd dan hyfforddiant yn gyfarwydd â'r syniad o oruchwyliaeth a'i phwysigrwydd wrth baratoi i gofrestru fel bydwraig. Roedd rhywfaint o dystiolaeth, a ddarparwyd gan oruchwylwyr bydwagedd, bod bydwagedd dan hyfforddiant yn cael cyfleoedd i brofi goruchwyliaeth ar waith yn y maes clinigol, er enghraifft, drwy oruchwyliaeth grŵp ac archwiliadau cadw cofnodion, ond ni cheid y cysondeb a geir mewn proses ffurfiol.

Dywedodd un fydwraig dan hyfforddiant, a siaradodd â'r tîm archwilio, nad oedd hi wedi clywed erioed am oruchwyliaeth bydwagedd.

3.4 Y broses o gynnal ymchwiliad

Cynhaliwyd neu cwblhawyd saith ymchwiliad parthed goruchwylwyr bydwagedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn y 12 mis o 1 Awst 2014 hyd 1 Awst 2015. Cwblhawyd tri o'r ymchwiliadau o fewn yr amserlen o 45 diwrnod. Ar adeg yr archwiliad, ni chofnodwyd

canlyniad ar gyfer un o'r ymchwiliadau, ac roedd y goruchwylydd bydwragedd allanol a oedd yn gyfrifol am yr ymchwiliad wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel goruchwylydd bydwragedd. Ymhlith y ffactorau a grybwyllwyd am yr oedi wrth offen y broses archwilio oedd salwch i fydwragedd a phrinder cymorth gweinyddol i'r broses. Mae'n bwysig bod gan y bwrdd iechyd hyder yng ngallu goruchwylwyr bydwragedd allanol sy'n ymchwilio i gwblhau ymchwiliadau mewn modd prydlon er mwyn ategu'r gwersi a ddysgwyd gan y bydwragedd oedd ynghlwm.

Nid yw'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn adolygu'r ffurflenni "Datix" (sef ffurflenni digwyddiadau clinigol a gwblheir gan aelodau o'r tîm mamolaeth). Roedd y broses o gynnwys goruchwylydd bydwragedd mewn risg clinigol wedi'i gwneud drwy'r Fydwraig Risg Clinigol. Mae'r Fydwraig Risg Clinigol yn adolygu pob ffurflen a dderbynnir gan y gwasanaeth mamolaeth ac mae'n cynnal cyfarfod wythnosol â'r Pennaeth Bydwreigiaeth. Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd y Fydwraig Risg Clinigol yn cyfarfod â'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd i drosglwyddo digwyddiadau a allai gynnwys materion sy'n ymwneud ag ymarfer bydwreigiaeth, fel y gall goruchwylydd bydwragedd gwblhau adolygiad achos a dilyn proses yr AGLI ar gyfer ymchwiliadau. Rhoddodd y Pennaeth Bydwreigiaeth sicrwydd i dîm adolygu'r archwiliad fod yr holl achosion perthnasol sy'n codi o'r adolygiadau "Datix" yn cael eu trosglwyddo i'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn wythnosol.

Yn ystod yr archwiliad, siaradodd y tîm adolygu â dwy fydwraig a ddywedodd mai ychydig o gymorth a gawsant pan ofynnwyd iddynt ddarparu datganiadau tyst ar gyfer ymchwiliad oedd yn mynd rhagddo. Mae hwn yn faes sydd angen i'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd ei wella i sicrhau bod yr holl fydwragedd y gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth i ymchwiliad yn cael eu cefnogi o'r cychwyn cyntaf.

3.5 Arferion nodedig ac arloesol

Arferion da

- Adroddodd 90% o'r ffurflenni adborth fod proses yr Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn dda iawn ac ardderchog
- Menter te parti nodiadau'r archwiliad
- Trefniant y sesiwn weithdy Llwybr Clinigol ar gyfer Esgor Naturiol
- Cefnogaeth y tîm o oruchwylwyr bydwragedd i ymgyrch Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i hyrwyddo normalrwydd a dewisiadau geni
- Arweiniad y tîm o oruchwylwyr bydwragedd ar gyfer menter Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gyflwyno clinig Genedigaeth Weiniol ar ôl Genedigaeth Gesaraidd yn y ddau safle lle ceir gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

- Datblygu cysylltiadau â menywod a mynychu Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth
- Rhoi cymorth i fydwagedd i gefnogi menywod sy'n gwneud dewisiadau geni nad ydynt o fewn y cyfarwyddyd lleol a chenedlaethol a seiliwyd ar dystiolaeth

Meysydd i'w gwella

- Ymwneud yn ffurfiol â Sefydliadau Addysgol Cymeradwy i ddatblygu Dangosydd Perfformiad Allweddol 5, a gweithredu cyfarfod rhwng myfyrwyr a goruchwylydd bydwagedd o leiaf ddwywaith y flwyddyn
- Datblygu cynllun gweithredu i gyflawni a chadw cydymffurfiaeth Adolygiad Goruchwylio Blynyddol o 100%
- Amlygrwydd clinigol ac ategu pwy yw'r goruchwylydd bydwagedd pan fydd newidiadau wrth gylchdroi
- Sicrhau bod cronfa ddata'r AGLI yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gynnal a thystio i Ddangosydd Perfformiad Allweddol 6 ar gyfer bydwagedd sydd newydd gymhwyso a (yn ychwanegol) bydwagedd sydd newydd eu cyflogi o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Sicrhau bod pob hysbysiad o fwriad i ymarfer yn cael ei lwytho'n amserol ar gyfer pob bydwraig sy'n gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Sicrhau bod cymorth ar gyfer pob bydwraig sydd ynghlwm â'r broses ymchwilio
- Cynnwys y rhif ffôn ar alwad 24 awr ar gyfer Cymru gyfan ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Sicrhau bod gwybodaeth am rif ar alwad 24 awr y goruchwylwyr bydwagedd yn cael ei throsglwyddo i'r holl switsfyrddau perthnasol mewn ysbytai ac ymhlith aelodau'r tîm mamolaeth

I grynhoi, mae'r archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

Bodlonwyd 5 o safonau

Mae **angen gwella** 1 safon

Ni fodlonwyd 1 safon

4 Casgliad

Mae'r AGLI yn ddiolchgar i bob goruchwylydd bydwagedd, presennol a blaenorol, am eu cyfraniad a'u hymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol a'r cyfraniad mae goruchwylwyr bydwagedd yn ei wneud i gefnogi bydwagedd i gefnogi menywod. Rydym o'r farn bod y model goruchwyllo diwygiedig yng Nghymru, a ddarperir gan dîm o oruchwylwyr bydwagedd sydd â goruchwyliaeth fel eu hunig swyddogaeth, yn sicr o fod er gwell. Ers cyflwyno'r model newydd, bu

canlyniadau gwell o ran cwblhau ymchwiliadau a mwy o gydymffurfiaeth â phroses yr Adolygiad Goruchwyllo Blynyddol. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan fydwagedd am y model newydd o oruchwyllo, yn enwedig ynghylch goruchwyllo grŵp ar gyfer yr Adolygiad Goruchwyllo Blynyddol, sydd i'w groesawu o ystyried bod rhai wedi bod braidd yn negyddol ynglŷn â pha mor llwyddiannus fyddai'r prosiect.

Roedd y tîm o oruchwylwyr bydwagedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar adeg y newid i'r model presennol yn meddu ar ddau oruchwyllydd bydwagedd allanol ac un goruchwyllydd bydwagedd mewnol a oedd wedi eu penodi. Roedd hyn yn cynnig her a chyfle i'r goruchwylwyr bydwagedd a'r bwrdd iechyd wrth ddarparu goruchwyliaeth statudol. Roedd y model yn fodd i rannu gwersi a ddysgwyd ledled y byrddau iechyd wrth i'r berthynas rhwng goruchwylwyr bydwagedd a bydwagedd gael eu meithrin a'u cryfhau i greu diwylliant cefnogol, cryf.

Mae'n deyrnged i ddau o'r goruchwylwyr bydwagedd eu bod nhw wedi cael dyrchafiad o fewn y bwrdd iechyd, gan ddangos cymaint mae'r tîm rheoli yn gwerthfawrogi eu harbenigedd a'u sgiliau trefnu. Bydd y cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd o'r archwiliad hwn yn cael eu rhoi ar waith gan y tîm newydd o oruchwylwyr bydwagedd a fydd yn eu swyddi ym mis Tachwedd 2015.

Roedd y tîm o oruchwylwyr bydwagedd yn bwysig wrth ddatblygu clinig Genedigaeth Weiniol ar ôl Genedigaeth Gesaraidd ledled y bwrdd iechyd er mwyn cynorthwyo menywod i eni trwy'r wain ar ôl cael toriad Cesaraidd ynghynt. Mae'r agenda normalwydd yn y bwrdd iechyd wedi cael ei chefnogi a'i datblygu drwy oruchwyliaeth.

Heb os nac oni bai, yr her fwyaf wrth ddarparu goruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymroddiad i'r rôl wrth i newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gydio. Mae'r AGLI yng Nghymru o'r farn ei fod mewn sefyllfa gryfach, ond nid yw'n hunanfodlon. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid inni weithio'n galed er mwyn cadw goruchwylwyr bydwagedd yn y rôl wrth i gyfleoedd eraill ddod i'r fei. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym dîm o safon a ymunodd â'r model oherwydd eu bod am wneud gwahaniaeth i fenywod a theluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, yn ogystal ag i'w cydweithwyr ym maes bydwreigiaeth a all fod yn wynebu ailstrwythuro sylweddol yn y misoedd sydd i ddod.

Dros y deuddeg mis nesaf, mae'r AGLI wedi ymroi i weithio'n agos gyda phenaethiaid bydwreigiaeth a chynrychiolwyr ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru er mwyn i broses ymchwilio'r goruchwylwyr bydwagedd weddu, lle bo'n bosibl, â phroses ymchwilio'r bwrdd iechyd. Bydd hyn yn gymorth i gynnal ymchwiliadau teg ac amserol sy'n sicrhau diogelwch y

cyhoedd ac yn adfer arferion bydwreigiaeth pan ddynodir bod anawsterau. Mae hwn yn gam yn y cyfeiriad cywir ar gyfer rhannu sgiliau ac arbenigedd o broses ymchwilio'r goruchwylwyr bydwragedd. Blaenoriaeth allweddol arall fydd proses gadarn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth er mwyn storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd yn ddiogel, yn enwedig cofnodion y broses ymchwilio, sydd yn rhaid i gael eu cadw am 25 mlynedd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm cyfredol o oruchwylwyr bydwragedd i ddangos ymhellach bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr ar gyfer proffesiwn bydwreigiaeth. Defnyddir canfyddiadau'r archwiliad ac elfennau allweddol o'r model i ddatblygu'r model o oruchwyllo at y dyfodol a fydd y tu allan i ddeddfwriaeth reoleiddio ac yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu ac ar agweddau arweinyddol y rôl oruchwyllo.



Atodiad A

Atodiad A

Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Rhaglen o Archwiliadau Blynnyddol o Safonau er mwyn Goruchwylio Bydwagedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad: 20 – 21 Hydref 2015

Lleoliad: Diwrnod Un – Ysbyty'r Tywysog Siarl

Diwrnod Dau – Adran hyfforddi ac ardaloedd clinigol, Ysbyty Brenhinol

Morgannwg

Tîm adolygu'r AGLI:

Sue Jose, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Jo Lavery, Goruchwylydd Bydwagedd

Kim Ashton, Goruchwylydd Bydwagedd

Louise Woolley, Adolygydd Lleyg

Natasha Thomas, Goruchwylydd Bydwagedd

Diwrnod 1		
Rhif	Amser	Gweithgaredd
1	09.15	Cyrraedd a Choffi
2	09.30	<p>Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI</p> <p>Cyflwyniad Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 2015-16 a chyfeiriad goruchwyliaeth at y dyfodol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Pennaeth Bydwreigiaeth ac Uwch Fydwagedd Cyfarwyddwr Clinigol Arweinwyr Llywodraethu/Risg yr adran famolaeth a'r bwrdd iechyd</p> <p>Bydwraig arweiniol ar gyfer addysg Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth Cynrychiolwyr y gweithle Darpar oruchwylwyr bydwagedd a bydwagedd o'r Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd</p>

3	10.00	<p>Cyflwyniad trosolwg 15 munud a bwrdd darlunio gan oruchwylwyr bydwragedd lleol a fydd yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Crynodeb o gynnydd o ran cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2015-2016 2. Enghreifftiau o arfer da a llwyddiannau'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd 3. Enghreifftiau o ddysgu gwersi/cau'r bwloch yn sgil ymchwiliadau goruchwyliaeth 4. Meincnodi ar sail gwersi a ddysgwyd o Guernsey a Kirkup <p>15 munud o Holi ac Ateb</p>
4	10.30	Egwyl
5	10.45	<p>Cyfarfodydd 30 munud y tîm adolygu gyda'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr Nyrsio – Lynda Williams • Pennaeth Bydwreigiaeth – Rachel Fielding • Uwch Fydwagedd – Ruth Friel, Sharon • Cyfarwyddwr Clinigol – • Arweinwyr Llywodraethu/Risg yr adran famolaeth a'r bwrdd iechyd • Bydwraig arweiniol ar gyfer addysg –
	12.45	Cinio
	13.15	<p>Cyfarfodydd 30 munud y tîm adolygu gyda'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadeirydd Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth a chyswilt y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth • Cynrychiolwyr y gweithle
	14.15	Adolygu cerdyn sgorio Chwarter 2 gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm lleol o oruchwylwyr bydwragedd
	14.45	Taith o'r uned i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol ac i gwrdd â defnyddwyr gwasanaeth, bydwragedd a bydwragedd dan hyfforddiant
Diwrnod 2		
	09.15	Croeso a choffi
	09.30	Taith o'r uned i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac i gwrdd â defnyddwyr gwasanaeth.
	10.30	Cyfarfodydd 30 munud y tîm adolygu gyda bydwragedd dan hyfforddiant
	11.00	Cyfarfodydd 30 munud y tîm adolygu gyda bydwragedd
	11.30	Sesiwn goruchwyliaeth grŵp
	12.30	Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad
	14.00	Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r goruchwylwyr bydwragedd a fydd yn cynnwys crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf

amddiffyn y cyhoedd
trwy oruchwyliaeth
statudol o fydwagedd



protecting the public
through statutory
supervision of midwives

aglic Arolygiaeth
Gofal Iechyd
Cymru
Healthcare
Inspectorate
Wales hiw

Atodiad B

Rhestr o Gyfranogwyr y broses o Archwilio Blynyddol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Cyfarwyddwr Nyrsio – Lynda Williams

Pennaeth Bydwreigiaeth – Rachel Fielding

Uwch Reolwr Bydwreigiaeth – Ruth Friel

Bydwraig Risg/Llywodraethu – Myfanwy Ellis

Cyfarwyddwr Clinigol – Jonathan Pembridge

Aelodau o'r tîm o oruchwylwyr bydwagedd – Dawn Davies a Zoe Ashman

Wedi'u cyfarfod gan Dîm yr AGLI:

Bydwagedd mewn mannau clinigol

Bydwagedd dan hyfforddiant mewn mannau clinigol

Ymddiheuriadau:

Diwrnod 2, Goruchwyllydd Bydwagedd – Dawn Davies